Cymdeithas Eryri
Snowdonia Society

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024





Cover page: Elusen Gofrestredig (Rhif 1155401) Sefydliad Corfforedig ElusennolRegis-
Swyddfa Gofrestredig: Caban Cyf, Yr Hen Ysgol, Brynrefail, Caernarfon LL55 3NR

# Rhestr gynnwys


| | |
|---|---|
| 3 | Cyflwyniad gan ein Cadeirydd |
| 4 | Hanes Cymdeithas Eryri |
| 5 to 17 | Adroddiad yr Ymddiriedolwyr |
| 18 | Adroddiad yr archwiliwr annibynnol |
| 19 | Datganiad gweithgareddau ariannol |
| 20 | Mantolen |
| 21 to 28 | Nodiadau i'r Cyfrifon |
| 29 | Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol |






# Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Yn Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 amlygwyd yn fanwl sut mae newid hinsawdd wedi effeithio ar fyd natur drwy golledion bioamrywiaeth yn yr hanner canrif diwethaf ledled y Deyrnas Unedig. Mae Deddf blaengar Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) Llywodraeth Cymru wedi dod yn fodel i lawer gwlad sy'n dymuno cydnabod gwerth byd natur a thirluniau fel buddion i bobl. Nod carreg filltir o fewn y Ddeddf yw 'gwrthdroi'r prinhad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau' erbyn 2030.

Mae arnom angen cymorth pawb i helpu i wrthdroi'r tueddiadau hyn; boed yn ffermwyr neu dirfeddianwyr sy'n datblygu ymarfer da wrth ffermio'n gynaliadwy, Parc Cenedlaethol Eryri a'i genadwri i warchod a gwella'r rhinweddau sy'n sicrhau bod Eryri yn lle arbennig, pob corff cyhoeddus, cyrff cadwraeth fel ni, a phobl – mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae, yn fwy nag erioed o'r blaen.

Gallwn fwrw trem yn ôl gyda balchder ar weledigaeth ein sylfaenydd Esme Kirby a sefydlodd Gymdeithas Eryri yn 1967. Sawl degawd yn ddiweddarach mae ein gallu i ymgyrchu ac eiriol a gwireddu cadwraeth ymarferol yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen. Mae ein staff ymroddedig a gwybodus sy'n ennyn parch yn parhau i wneud gwahaniaeth drwy gyfrwng ein partneriaid a'n gwirfoddolwyr. Bydd ein cyfleoedd i hyfforddedigion yn cyfrannu at ddatblygiad economi werdd gan mai hon fydd model y dyfodol ar gyfer integreiddio gwarchodaeth byd natur a thirluniau gyda chynhyrchu bwyd ac ynni.

Fel y mae uchafbwyntiau'r adroddiad hwn yn ei ddangos, bu'r flwyddyn 2023/24 yn un hynod o lwyddiannus ledled amrywiaeth o weithgareddau. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn gwneud cyfraniad gwerthfawr ond hefyd, yn ôl yr adborth yr ydym yn ei dderbyn yn rheolaidd, mae'r weithred o gymryd rhan yn sicrhau buddion personol hefyd. Wrth roi, mae rhywun yn derbyn, a gwybod eich bod yn rhan o gyfrannu at les.

Fodd bynnag, fel gyda pob blwyddyn, ni fyddai ein gwaith yn bosibl heb gefnogaeth graidd ein haelodau ynghyd â chymorth ariannol noddwyr grant a chyfraniadau hanfodol, yn cynnwys drwy gyfrwng Y Rhoi Mawr (The Big Give), a chefnogaeth hael ein gwirfoddolwyr – mae eu cyfraniad o amser i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau cadwraeth yn wirioneddol werthfawr i bawb. Ar ran pob un o'r ymddiriedolwyr, diolch yn fawr.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cafwyd nifer o newidiadau yn y tîm. Ffarweliwyd â John Harold a oedd wedi tywys Cymdeithas Eryri yn llwyddiannus ers bron i ddegawd, a chroesawyd Rory Francis fel ein Cyfarwyddwr newydd. Gadawodd Judith Bellis, ein Swyddog Ariannol, hefyd ac yn ei lle y daeth Hazwani Ibrahim. Gadawodd Alf Bodenham, ein Cynorthwy-ydd Cadwraeth. Croesawyd Peri Smith fel Swyddog Ymgysylltu, a dau o hyfforddedigion cadwraeth, Molly Isherwood a Chelsea Boden.

Ffarweliwyd hefyd â sawl ymddiriedolwr: Jane Parry-Evans, Denis McAteer, Richard Neale a Richard Brunstrom, a chroesawyd Rob Collister, Chloe Bailey a Chris Ball i'r rôl bwysig o ddarparu cyfeiriad strategol a rheolaeth drwyddo draw i'n helusen.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, dechreuwyd ystyried o ddifrif y ffordd orau i gyfeirio ein gwybodaeth helaeth a'n profiad yn y dyfodol. Nod y strategaeth a luniwyd o ganlyniad, 'Eryri llawn Byd Natur i Bawb' yw ysbrydoli llawer mwy i gefnogi a gweithredu er gwarchodaeth a chadwraeth Eryri; i ganolbwyntio'n fwy penodol ar ddiffinio'r ardaloedd o adferiad byd natur lle allwn sicrhau'r effaith fwyaf; i barhau i ddefnyddio ein llais annibynnol i eiriol dros gadwraeth, a herio gweithrediadau a all beri canlyniadau niweidiol i gadwraeth; ac, yn olaf, i atgyfnerthu ein helusen i barhau'n berthnasol ac yn gynaliadwy am lawer degawd i ddod.

Sue Beaumont

Sue Beaumont - Cadeirydd Cymdeithas Eryri

# Hanes Cymdeithas Eryri



## Ein dulliau o weithredu

- Rydym yn llais gwybodus ac annibynnol dros Eryri
- Drwy gyfrwng Dwylo Diwyd, rydym yn gwireddu rhaglen wirfoddoli fwyaf Parc Cenedlaethol Eryri
- Drwy weithio mewn partneriaeth rydym yn cyfrannu at waith tymor hir ac yn gwneud gwir wahaniaeth
- Rydym yn buddsoddi mewn pobl ifanc o bob cefndir, o wirfoddoli ymarferol a hyfforddiant achredu i hyfforddedigion sy'n cael eu talu

### Nodau ac amcanion

Gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri a hyrwyddo eu mwynhad er budd pawb sy'n byw yn yr ardal, sy'n gweithio yma neu sy'n ymweld â'r ardal nawr ac yn y dyfodol.

### Ein gweledigaeth

Mae Eryri yn enghraifft ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o dirluniau dynodedig, lle mae pobl o bob math yn gweithredu i sicrhau bod y tirlun, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yn cael eu gwerthfawrogi, eu gwarchod a'u mwynhau.

### Gweithrediadau arwyddocaol

Y gweithgareddau arwyddocaol a wireddwyd oedd:

- Rhaglen o gadwraeth ymarferol drwy gyfrwng partneriaid, staff a gwirfoddolwyr
- Eiriolaeth mewn ymateb i gynllunio, polisi a deddfwriaeth ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, lle mae gan y materion y gallu i effeithio ar y Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r angen i warchod Eryri a sut mae'r Gymdeithas yn gweithio tuag at hyn
- Darparu gwasanaethau i aelodau a chefnogwyr sy'n helpu i wneud gwaith y Gymdeithas yn bosibl



# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn sy' n diweddu 31 Mawrth 2024. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Adrodd a Chofnodi gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Gymeradwyir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol 1 Ionawr 2019).

**Ein buddiolwyr**

Fel yr unig gorff gwirfoddol sy'n bodoli'n llwyr ar gyfer gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri, ein prif fuddiolwyr yw pawb sy'n byw yn yr ardal, sy'n gweithio yma ac yn ymweld â hi, yn ogystal â'r bywyd gwyllt ei hun. Yn ychwanegol at hyn, wrth gwrs, mae ein gwaith o fudd i bawb sydd wedi dewis cymryd rhan yn ein gweithgareddau: ein haelodau, cefnogwyr, gwirfoddolwyr, a'r sawl sy'n mynychu ein digwyddiadau. Yn olaf, mae ein gwaith o fudd i'r cyrff yr ydym yn cydweithio â nhw fel partneriaid, fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y mae eu hamcanion yn gorgyffwrdd cymaint â'n rhai ni.

**Budd i'r cyhoedd**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Elusennau ar wireddu budd i'r cyhoedd wrth benderfynu pa weithgareddau y dylai Cymdeithas Eryri ymgymryd â nhw wrth geisio gwireddu ein amcanion ac wrth roi unrhyw bwerau neu ddyletswyddau ar waith y mae'r arweiniad hwn yn berthnasol iddyn nhw. Mae'r Ymddiriedolwyr felly yn ystyried eu bod yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011.

**Gwirfoddolwyr**

Mae Cymdeithas Eryri yn derbyn cefnogaeth sylweddol gan wirfoddolwyr, yn enwedig ar gyfer Dwylo Diwyd a'n gwaith cadwraeth ymarferol, yn ogystal â gan Ymddiriedolwyr a chynghorwyr ad hoc, er enghraifft, ar geisiadau cynllunio yn y Parc Cenedlaethol. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddyn nhw i gyd am eu hamser gwerthfawr, eu hymrwymiad a'u harbenigedd. Yn unol â SORP 2105 dydy cyfraniad gwirfoddolwyr ddim wedi ei gynnwys yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, oherwydd nad ydy hyn yn hawdd ei fesur mewn termau ariannol.

**Llywydd**
Mr Roger Thomas

**Is-lywyddion**
Sir Simon Jenkins
Mr David Firth
Ei Fawrhydi Huw Morgan Daniel KSTJ

**Bancwyr**
HSBC UK Bank plc
60 Mostyn Street
Llandudno LL30 2SF

Rheolaeth Fuddsoddi Rathbones
(Investment Management)
Adeilad Porthladd Lerpwl, Pier Head
Lerpwl L3 1NW

**Ymddiriedolwyr**
Ms Sue Beaumont
Ms Jane Barbrook
Mr Julian Pitt
Mr Mathew Teasdale
Mr David Walker
Mr Rob Collister (elected 18.11.23)
Ms Chloe Bailey (elected 18.11.23)
Ms Chris Ball (elected 18.11.23)

# Uchafbwyntiau 2023-24

**Dwylo Diwyd**
Wrth ddefnyddio nawdd grant a sicrhawyd drwy gyfrwng Cronfa Cyfoeth a Rennir, rydym wedi gallu symud ein gwaith Caru Eryri i lefel newydd, gan weithio gyda mwy o wirfoddolwyr a threfnu mwy o ddyddiau gwaith sy'n gwneud gwir wahaniaeth o fewn y Parc Cenedlaethol.



*Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom waith i gynnal a chadw 30km o lwybrau troed.*

**Project y Carneddau**
Noddwyd ein gwaith Caru Eryri gan Gronfa Cyfoeth a Rennir drwy gyfrwng Cyngor Gwynedd. Bu'n rhaid felly canolbwyntio'r gwaith hwn o fewn Gwynedd, ond drwy gyfrwng Project ardderchog y Carneddau, roeddem yn gallu ymgymryd â dau brif broject o fewn Conwy.

Yn gyntaf, gweithiwyd gyda chymunedau lleol i gefnogi eu hymdrechion i glirio jac-y-neidiwr ymledol yn eu hardaloedd lleol ac rydym wedi ymgysylltu â disgyblion Ysgol Llangelynnin ac Ysgol Llanllechid. Bu 18 o bobl yn cymryd rhan mewn hyfforddiant achrededig ar gyfer clirio rhywogaethau ymledol dros haf 2023 a threfnwyd gennym 11 o ddyddiau gwaith ymarferol i gefnogi cymunedau lleol gyda'u gwaith clirio nhw.

Yn ail, trefnwyd 14 diwrnod gwaith gennym i glirio llystyfiant o gwmpas cofebion archeolegol (gohiriwyd ychydig yn anffodus oherwydd tywydd drwg). Rydym wedi cydweithio gyda grwpiau o Goleg Dewi Sant, Coleg Llandrillo ac Ysgol Tir Morfa yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd. Mae'r dyddiau clirio llystyfiant yn boblogaidd bob amser ac mae'r gwirfoddolwyr yn gallu dysgu hefyd am archeoleg.

**Diolch i bob un o'n partneriaid ariannu; mae eu cefnogaeth wedi'n galluogi i gynyddu ein heffaith:**

Funded by UK Government · Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
nationalgrid
NEW TO NATURE
Groundwork – Changing places, changing lives
Made possible with Heritage Fund
The Queen's Platinum Jubilee 2022
Cyfoeth Naturiol Cymru – Natural Resources Wales
People's Postcode Lottery
Postcode Community Trust
Cronfa Gymunedol – Community Fund
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau Landscape Partnership
Cyngor Gwynedd

**Caru Eryri – Gofalu am Eryri**
Cwblhawyd llawer o'r gwaith hwn fel rhan o broject Caru Eryri. Partneriaeth yw hon rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithas Eryri, sy'n ymgysylltu â'r nifer cynyddol o ymwelwyr ar y ffordd orau o ofalu am yr amgylchedd a rheoli effaith gweithgareddau ymwelwyr drwy gyfrwng casglu sbwriel a chynnal prif lwybrau.

Eleni trefnwyd 164 o ddyddiau gwaith i wirfoddolwyr a gweithiodd ein gwirfoddolwyr am gyfanswm o 5,620 awr o waith. Llwyddwyd i gasglu, ailgylchu neu gael gwared o 1,500kg o sbwriel mewn modd cyfrifol. Ymgymerwyd â gwaith i gynnal 30km o lwybrau. Roeddem hefyd yn gallu buddsoddi yn ein gwirfoddolwyr a darparu hyfforddiant achrededig i 26 gwirfoddolwyr ac, ar ddiwedd y flwyddyn, derbyn dau o bobl llawn amser o dan hyfforddiant, sy'n helpu i drefnu ein gwaith cadwraeth ond sydd hefyd yn magu profiad gwerthfawr o ran gyrfa wrth wneud hynny.

**Gwobr Dewi Sant**
Roeddem yn falch iawn ar ddiwedd y flwyddyn pan osodwyd project Caru Eryri ar restr fer Gwobrau Dewi Sant. Rhoir y gwobrau clodfawr yma yn flynyddol i ddathlu a chydnabod llwyddiannau rhyfeddol pobl yng Nghymru am eu dewrder, mentr, diwylliant, chwaraeon, ysbryd cymunedol yn ogystal â bod yn bencampwyr amgylcheddol. Roedd Caru Eryri yn un o'r tri olaf yn y categori amgylchedd. Er na wnaethon ni ennill, teithiodd ein Cadeirydd Sue Beaumont a thri gwirfoddolwr i Gaerdydd i fynychu'r digwyddiad lle rhannwyd y Gwobrau gan y Gweinidog Cyntaf Vaughan Gething a estynnodd hefyd ei longyfarchiadau i'r enillwyr.



*Gwirfoddolwyr Caru Eryri Karen Wood, Sue Beaumont, Simon Higgins, Alwyn Williams ac Ian Hampton yn seremoni Gwobrau Dewi Sant*

## Rhywfaint o'r adborth a dderbyniwyd gan wirfoddolwyr pan roddwyd arolwg ar-lein ar waith ar ddiwedd tymor 2023 Caru Eryri:



"It was an enjoyable experience and felt good to be able to give something back to our beautiful local area."

"Roedd yn wych gael cyfle i wirfoddoli yn fy nghymuned."

"Cynllun a chyfle hollol wych! Y peth gorau wnes i y flwyddyn yma! Pawb mor mor glên a chroesawgar! Diolch yn fawr! Annog pawb i ymuno flwyddyn nesa!"

"It's a pleasure to spend time in this amazing landscape and to know that you are building and maintaining important habitats for the future. Connecting with like-minded people and doing hands on work is also very good for your mental health and wellbeing."






*Dysgu'r grefft o wehyddu helyg gyda'r ryfeddol Eirian Muse o Helyg Lleu*

**Project Llinellau yn y Tirlun**
Yn ystod y flwyddyn trefnwyd rhaglen wych o ddigwyddiadau ar thema Llinellau yn y Tirlun, diolch i Gronfa Nawdd Cymunedol y Grid Cenedlaethol. Cafodd ein haelodau, gwirfoddolwyr ac eraill a fu'n cymryd rhan gyfle arbennig i ymgysylltu â thirluniau Parc Cenedlaethol Eryri mewn ffyrdd sy'n ymarferol, addysgiadol, creadigol ac, ar adegau, yn llawer o hwyl!

Cafwyd cyfle i roi cynnig ar fedrau traddodiadol sy'n cynnal ein tirluniau fel codi cloddiau cerrig sych gyda Julian Thompson o Ganolfan Gadwraeth Pensychnant, a phlygu gwrych gyda Joseff o fferm Llwyngwilym, Dinas Mawddwy. Cafwyd cyfle iddyn nhw ddysgu ac ymarfer y medrau hynafol yma sydd wedi eu trosglwyddo dros y cenedlaethau ac a fydd, gobeithio yn parhau i gael eu trosglwyddo yn y dyfodol.

Fe'u hysbrydolwyd ar deithiau tywys gwych, o'r hanes diwydiannol sydd wedi llunio'r Wyddfa gyda'r Arweinydd Mynydd Keith Hulse, i ddilyn llinellau'r map sy'n ein hamgylchynu ond sy'n anweledig gyda Mike Raine.

Cynigiodd Archeolegydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Kathy Laws, gipolwg ar hanes dyn yn y mynyddoedd, a chafwyd hyd i'r byd dirgel sy'n ein hamgylchynu wedi iddi dywyllu ar daith i weld ystlumod Tŷ Hyll gyda Sam Dyer.

Cafwyd cyfle i'r sawl oedd yn cymryd rhan archwilio eu hochr greadigol gyda Thywys gan Fyd Natur, wrth ddefnyddio inciau a thechnegau naturiol traddodiadol i greu llyfryn gydag ystyr personol, a thynnu lluniau gyda golosg gyda'n Peri Smith ni. Wrth ddysgu sut i wehyddu helyg gydag Eirian Muse o Helyg Lleu cafwyd cipolwg arbennig ar y medr hardd hwn.

Mae Eryri yn llawn o linellau sy'n ein galluogi i ddeall a chrwydro'r tirlun, o lwybrau a thraciau i afonydd a chyfuchlineddau. Gallwn weld llinellau o hanes dyn a byd natur os ydym ni'n gwybod ym mhle i edrych. Mae hi wedi bod yn wych gweithio gydag aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cymunedol eleni drwy gyfrwng y project Llinellau yn y Tirlun, i ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol a'i werthfawrogi, ac efallai ychwanegu llinell fach i'n straeon ein hunain.

**Tŷ Hyll**
Parhaodd Tŷ Hyll i gael ei osod fel ystafell de 'Y Pot Mêl'. Cynhelir y gerddi, fodd bynnag, gan y Gymdeithas, yn arbennig gwirfoddolwyr gyda chymorth dau arddwr rheolaidd. Y nod yw galluogi'r gerddi o gwmpas i ddod yn fwy gwyllt wrth ganiatáu i ymwelwyr fwynhau'r teithiau ar lwybrau hardd y goedlan, ac ymweld â'r pwll a grëwyd fel hafan i fywyd gwyllt. Rydym yn cydweithio gyda gwenynwyr lleol i gynnal cwch o wenyn mêl sy'n casglu paill a neithdar yng nghynefin y goedlan hardd hwn. Yn anffodus, yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid cwympo rhai o'r coed, a oedd yn beryglus o ganlyniad i'r haint ar goed ynn.

**Penwythnos MaD**
Ym mis Medi '23 cynhaliwyd penwythnos Mentro a Dathlu unwaith eto. Daeth cyfanswm o 52 o bobl o bob oedran i Nant Gwynant am benwythnos llawn digwyddiadau gwirfoddoli, yn cynnwys creu blychau nythu i dylluanod, casglu sbwriel ar ganŵ, cynnal a chadw llwybrau, rheoli rhywogaethau ymledol a llawer mwy! Roedd y penwythnos yn gyfle gwych i dreulio amser yn mwynhau cynefinoedd a thirluniau arbennig Eryri tra'n helpu i'w gwarchod. Yn benodol, llwyddodd rhai o'n aelodau brwdfrydig sy'n byw cryn bellter i ffwrdd i gymryd rhan lawn yn ein gwaith cadwraeth


*Coetir hyfryd Tŷ Hyll*



# Eiriolaeth

Arweinir ein gwaith eiriolaeth gan ein Pwyllgor Eiriolaeth sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr, dau Ymddiriedolwr, Julian Pitt a Jane Barbrook a Mark Dakeyne, aelod o'r Gymdeithas a fu'n gweithio'n broffesiynol ym maes cynllunio.

Rydym yn cydlynu ein gwaith eiriolaeth yn agos gyda'r Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru, Ymgyrch Parciau Cenedlaethol.  Rydym hefyd yn Aelod Cyswllt o Gyswllt Amgylchedd Cymru ac yn bartner i Hinsawdd Cymru.

Ynghyd â gweddill y byd, mae Eryri yn wynebu argyfwng byd natur a hinsawdd, gydag un rhywogaeth o bob chwech mewn perygl o ddiflannu o'r tir. Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd a chefnogwyd nifer o ymgyrchoedd ac, fel yr unig gorff gwirfoddol sy'n bodoli'n unig ar gyfer gwarchod a gwella harddwch a rhinweddau arbennig Eryri er budd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, ac yn ymweld â hi, nawr ac yn y dyfodol, ymatebwyd i nifer o ymgynghoriadau,

**Y cynnig am gynllun ynni-dŵr Rhaeadr y Cwm**In
Ym mis Tachwedd ymatebwyd i ymgynghoriad ar adeiladu cynllun ynni-dŵr newydd ar Raeadr y Cwm, Cwm Cynfal, Ffestiniog. Roedd y Gymdeithas wedi gwrthwynebu cynigion tebyg iawn ar yr un darn o'r afon ar dri achlysur dros y trideg blwyddyn blaenorol, am resymau'n ymwneud â bioamrywiaeth a thirlun. Roedd pob un o'r rhain un ai wedi eu tynnu'n ôl neu wedi eu gwrthod. Byddai'r cynnig diweddaraf yn golygu creu argae yn yr afon ac arallgyfeirio hyd at 70% o'r dŵr drwy bibell, gan fynd felly heibio'r rhaeadr. Mynegodd y Gymdeithas felly bryderon mawr ynglŷn â hyn, gan godi'r mater hefyd yn y cyfryngau cenedlaethol. Disgwyliwn gynnig llawn ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.

**Cyfarwyddyd Erthygl 4**
Ym mis Mawrth dilynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Gyngor Gwynedd wrth gynnig creu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoleiddio newid tai lleol yn dai gosod tymor byr a llety gwyliau. Yn bryderus am effaith twf y diwydiant twristiaeth ar gymunedau lleol ac argaeledd tai ar gyfer pobl leol, cefnogodd y Gymdeithas y weithred yma.

**Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
Ymatebwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig ym mis Mawrth, gan gefnogi'n gryf yr egwyddor y dylai ffermwyr Cymru gael eu talu'n deg am weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur, a rhoi gweithrediadau ymarferol ar waith a fyddai'n gwella bioamrywiaeth. Yn arbennig, galwyd am raglen Ffermio Cynaliadwy mewn Tirluniau Dynodedig fel haen gydweithredol o fewn yr CFfC, yn seiliedig ar y syniad o Dirluniau Dynodedig fel mannau pwysig i fioamrywiaeth, er nad yw hyn yn wir bob amser.

Yn ychwanegol, gweithiwyd gyda Chynghrair Tirluniau Dynodedig Cymru i greu e-weithred i alluogi ein cefnogwyr i gymryd rhan yn hawdd yn yr ymgynghori eu hunain. Manteisiodd union 100 o bobl ar hyn, gan helpu i ddangos i Lywodraeth Cymru bod llawer o bobl yn pryderu'n fawr am rywogaethau fel y gylfinir, cennin Pedr Gymreig neu'r eog yn y dyfodol ac yn dymuno i Lywodraeth Cymru gefnogi ffermwyr i fod yn rhan o'r ateb.

**Peilonau newydd yn y Parc?**
Ym mis Mawrth cyhoeddodd y Grid Cenedlaethol gynlluniau i wario £60bn ar uwchraddio isadeiledd ledled y DU. Roeddem yn pryderu oherwydd roedd hyn yn cynnwys cysylltiad tensiwn uchel rhwng Bangor ac Abertawe, gan basio o bosib drwy Eryri, Bannau Brycheiniog a Mynyddoedd y Cambrian. Does dim cynlluniau pendant gan mai ar fin cychwyn mae'r gwaith, ond mae'r Gymdeithas wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac hefyd gydag aelodau eraill o Gynghrair Tirluniau Dynodedig Cymru. Rydym yn hynod o bryderus bod peilonau newydd yn cael eu hystyried ledled y Parc a byddwn yn gwneud cymaint ag y gallwn i sicrhau na fydd pa bynnag opsiwn fydd yn cael ei ddewis yn cynnwys y rhain.

**Mastiau ffonau symudol**
Mae darparwyr ffonau symudol wedi bod yn brysur yn ceisio gwella derbyniad ffonau symudol ledled Eryri, rhywbeth yr ydym yn ei groesawu. Serch hynny, rydym yn hynod o bryderus am effaith polion newydd a thyrrau rhwyllwaith ar y tirlun, yn enwedig lle mae'r rhain mewn lleoliadau amlwg ar bennau bryniau neu ar y gorwel, a lle maen nhw'n beryg o anharddu tirlun hyfryd. Mynegodd y Gymdeithas bryderon am bedwar mast newydd o'r fath yn ystod y flwyddyn, ac ymhen amser gwrthodwyd un ohonon nhw yn Rhyd-yr-Eirin wrth droed y Rhinogydd uwchben Harlech. Rydym yn ddiolchgar i Awdurdod y Parc Cenedlaethol am ddelio gyda'r ceisiadau yma mewn modd sensitif haeddiannol.



*Rhaeadr fawreddog Rhaeadr y Cwm*





# Adolygiad Ariannol

**Safle ariannol**
Dyma'r ail flwyddyn lawn o gydymffurfio gyda'r flwyddyn dreth o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Er bod yr hinsawdd economaidd wedi llacio rhywfaint o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt; mae'r sefyllfa wedi parhau i fod yn heriol gyda phryderon am effaith chwyddiant, costau byw cynyddol, a newid o bosibl yn y llywodraeth.

Roedd yr incwm am y flwyddyn yn £280,884 gydag arian dros ben o £13,290 a oedd yn cynnwys ein Cynilion Tymor Hir yn ein portffolio buddsoddiadau gyda Rathbones o £42,043. Derbyniwyd sawl grant newydd a'n galluogodd I barhau â'n gwaith cadwraeth ymarferol. Er hyn, parhaodd rheoli llif arian i fod yn her gan fod symiau sylweddol o'n hincwm grant yn cael eu hawlio wedi i'r gwaith gael ei gyflawni.

Parhaodd incwm o weithgareddau codi arian a chofroddion ac incwm masnachu o werthiant nwyddau a hadau ar lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol (2024: £81,293, 2023: £81,820).

Parhaodd Ymddiriedolwyr i fonitro'r sefyllfa gyllidol yn ystod y flwyddyn ac i asesu risgiau a sut i'w rheoli a daethpwyd i sawl canlyniad. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i dynnu cyfanswm o £50,000 o'i Gynilion Tymor Hir (CTH) i sicrhau parhad ei gwaith cadwraeth ac wrth ragweld derbyn ein hincwm grant.

Roeddem yn falch o dderbyn nawdd grant gan yr Ymddiriedolaeth Post Cod Cymunedol, Y Loteri Genedlaethol: Gwobrau i Bawb, Newydd i Natur a'r Gronfa Ffyniant a Rennir, a chofroddion gwerth £15,318 yn ogystal â rhoddion, yn cynnwys rhai oedd yn cael eu dyblu gan y Rhoi Mawr (Big Give), a chefnogaeth barhaus aelodaeth. Gydag aelod ychwanegol o staff, rydym yn obeithiol bod yr adnoddau ar waith gennym a fydd yn ein galluogi i barhau â'r gwaith.



**Polisi buddsoddi**
Mae Polisi Buddsoddi Ysgrifenedig y Gymdeithas (BYC), sy'n trafod arian wrth gefn, buddsoddiad a rheolaeth risg ar gael o'r swyddfa ar gais. Amcan portffolio buddsoddiad y Cynilion Tymor Hir (CTH) yw cynhyrchu adenillion gyda chydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, wrth ddefnyddio lefel ganolig o risg, sy'n cynhyrchu adenillion sydd o leiaf yn fwy na chwyddiant yn y tymor hir. Cynhelir y Cynilion Tymor-Byr (CTB) mewn cyfrifon cyfredol sy'n cynhyrchu ychydig o log, ond sy'n ceisio gwarchod gwerthoedd cyfalaf.

Nodwyd uchod y weithred o dynnu £50,000 o Gynilion Tymor Byr y Gymdeithas, a syrthiodd o fewn cyfyngiadau caniataol a nodir yn PBY, gan adael cyfalaf gweithredu digonol pe bai methiant systemig ac argyfyngus mewn ariannu yn digwydd.

**Buddsoddi Ethegol**
Cynhwysir polisi'r Gymdeithas ar fuddsoddiad ethegol yn y Polisi Buddsoddi Ysgrifenedig, yn awdurdodi Rathbones fel rheolwr y portffolio buddsoddi i weithredu 'sgrinio negyddol' i wrthod buddsoddi mewn gor-ddefnydd o anifeiliaid, pryderon hawliau dynol, pryderon ynglŷn â rheolaeth amgylcheddol, effeithiau carbon uchel, agrogemegau, cloddio a gor-ddefnydd o gynefin. Mae Ymddiriedolwyr wedi hysbysu Rathbones eu bod yn parhau i adolygu'r polisi yma o ystyried eu dewis am 'sgrinio positif' lle buddsoddir yn y dyfodol gyda chwmnïau sydd â buddion amgylcheddol ac ethegol positif eraill. Mae Rathbones yn parhau i fireinio a gwella'r polisi cyfredol.

**Adroddiad Buddsoddiadau/Perfformiadau**
Cyfanswm gwerth y portffolio buddsoddi gyda Rathbones ar 31 Mawrth 2023 oedd £437,040. Dros y cyfnod o 12-mis, cwympodd cyfanswm y portffolio o 0.3% o'i gymharu â diffyg blynyddol o 4.4% yn 2022/23.

**Polisi arian-wrth-gefn**
Polisi'r Gymdeithas yw cynnal Cynilion Tymor Byr digonol i ateb gwariant arferol dros gyfnod o 4-6 mis mewn cyfrifon hawdd cael gafael arnyn nhw. Buddsoddir Cynilion Tymor Hir (CTH) eraill ar ran y Gymdeithas gan reolwyr buddsoddi (Rathbones) i gynhyrchu'r adenillion ariannol gorau o fewn lefel dderbyniol o risg ac yn unol â'n cyfarwyddiadau ar fuddsoddiadau ethegol. Mae angen Cynilion Tymor Hir (CTH) ar y Gymdeithas er mwyn iddi allu:

- ateb costau ymgyrchoedd newydd neu gyfleoedd pwysig eraill a all amlygu eu hunain;
- gwarchod yn erbyn argyfyngau na ragwelir, incwm sy'n amrywio a gwariant angenrheidiol annisgwyl, er mwyn darparu sail sefydlog ar gyfer gwireddu amcanion y Gymdeithas;
- darparu cyfalaf gweithio pan ad-delir nawdd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod swm sy'n cyfateb i drosiant blwyddyn yn fwy na'r CTB yn briodol i'r Elusen allu parhau â'i gweithgareddau. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn parhau i adolygu a yw lleiafswm y CTH wedi ei osod ar lefel briodol ac hefyd a oes angen sefydlu unrhyw gronfeydd dynodedig o fewn yr CTH, pe bai hyn yn codi'n sylweddol uwchben trosiant dwy flynedd.

**Cynlluniau'r Dyfodol**
Yn ystod y flwyddyn datblygodd y Gymdeithas Gynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2025-27, sy'n cynnal pwyslais gref ar wirfoddoli a gweithredu'n ymarferol wrth weithio gyda phartneriaid, law yn llaw yn ogystal â gwaith eiriolaeth ymarferol. Mae, fodd bynnag, yn gosod mwy o bwyslais ar y gweithrediadau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng byd natur, ac hefyd ar geisio gweithio'n fwy cydweithredol, grymuso cymunedau i weithredu eu hunain a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau'n hytrach nag allbynnau.

# Strwythur, Rheoleiddio a Rheolaeth

**Dogfen reoleiddio**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen reoleiddio, gweithred o ymddiriedaeth ac mae'n golygu elusen heb ei hymgorffori.

Sefydlwyd Cymdeithas Eryri a'i chofrestru am y tro cyntaf yn 1967. Ym mis Ionawr 2014 ail-gofrestrodd y Gymdeithas gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif cofrestredig 1155401) fel Corff Elusennol Ymgorfforedig (CEY). Dogfen reoli'r Gymdeithas yw ei chyfansoddiad, sydd ar gael ar ei gwefan.

**Bwrdd Ymddiriedolwyr**
Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr yw atebolrwydd a chyfeiriad strategol y Gymdeithas drwyddi draw ac mae'n rhaid iddyn nhw i gyd fod yn aelodau o'r Gymdeithas, a pheidio â derbyn arian am y rôl. Gallwn gael hyd at ddeuddeg Ymddiriedolwr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac ar hyn o bryd mae Pwyllgor Ariannol a Rheoleiddio'n cyfarfod cyn pob Bwrdd, ac mae Grŵp Eiriolaeth yn cyfarfod fel bod angen. Ymgymerodd Ymddiriedolwyr ag adolygiad strategol yn ystod 2023-24, a chynhyrchwyd Cynllun Strategol newydd.

**Penodi Ymddiriedolwyr**
Ffurfiwyd panel o ddau Ymddiriedolwr o leiaf, yn cynnwys y Cadeirydd, i sefydlu meini prawf recriwtio a'r broses gyfweld ar gyfer Ymddiriedolwyr newydd, wrth ystyried yr angen am fwy o amrywiaeth a medrau priodol. O ganlyniad i'r broses hon, cynigiwyd tri Ymddiriedolwr newydd ac fe'u hetholwyd yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol 2023.

**Rheolaeth a staffio**
Dirprwyir rheolaeth o ddydd i ddydd i Gyfarwyddwr y Gymdeithas sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Cadeirydd, pwyllgorau eraill a'r Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr a'r tîm staff yn gweithio i wireddu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y cynllun gweithredu blynyddol, ac mae'r Cyfarwyddwr yn adrodd yn ôl i bob cyfarfod chwarterol y Bwrdd ar berfformiad yn erbyn y gyllideb ac effaith.
Fel cyflogwyr cyfrifol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo polisïau sy'n berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch ac eraill sy'n berthnasol i waith y Gymdeithas, a adolygir ac a ddiweddarir yn unol â newidiadau i ddeddfwriaeth ac ymarfer da.

**Rheoli risg**
Nodwyd yn y blynyddoedd diweddar mai'r prif risg i sefydlogrwydd ariannol tymor hir y Gymdeithas, o dan amgylchiadau arferol, yw effaith chwyddiant ar y cynilion ariannol. Rheolir y buddsoddiadau gyda'r nod o leihau'r risg hon. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i lunio Cofrestr Risg ac adolygu'r risgiau ariannol cyfredol allweddol o fewn cyd-destun risg ehangach.

**MANYLION CYFEIRNODAU A GWEINYDDU**
Rhif Elusen Gofrestredig
1155401

**Prif gyfeiriad**
Cymdeithas Eryri
Caban, Yr Hen Ysgol
Brynrefail
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 3NR

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Mae'n ofynnol gan y ddeddf sy'n berthnasol i elusennau yn Lloegr a Chymru, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau'r weithred o ymddiriedaeth i baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi gwir olwg a golwg teg o gyflwr materion yr elusen a'r adnoddau sy'n dod i mewn a sut y'u defnyddir, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau hynny, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr:

- Ddewis polisïau cyfrifol priodol ac yna eu defnyddio'n gyson
- Dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr elusen
